

Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Annibynnol New Hall

Dyddiad yr arolygiad: 24, 25 a 26 Hydref 2023

Dyddiad cyhoeddi: 26 Ionawr 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83577-403-8

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

| | |
|--|----|
| 1. Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. Crynodeb o'r arolygiad | 6 |
| 3. Yr hyn a nodwyd gennym | 8 |
| • Ansawdd Profiad y Claf | 8 |
| • Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol | 11 |
| • Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | 17 |
| 4. Y camau nesaf | 20 |
| Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad | 21 |
| Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith | 22 |
| Atodiad C - Cynllun gwella..... | 23 |

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol yn Ysbyty Annibynnol New Hall ar noson y 24ain Hydref a thrwy'r dydd ar 25 a 26 Hydref 2023.

Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Glaslyn - ward â phedwar gwely
- Ward Adferiad - ward â chwe gwely

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol (a oedd yn cynnwys yr adolygydd enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac Arbenigwr drwy Brofiad. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ymgysylltu â'r cleifion lle roedd hynny'n bosibl fel y gallent ddweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd garedig a pharchus drwy gydol yr arolygiad. Gwelsom y cleifion yn ymddwyn yn yr un ffordd tuag at y staff drwy gydol yr arolygiad.

Roedd mynediad da i weithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle, a oedd o fudd therapiwtig i'r cleifion ac yn seiliedig ar eu hoffterau a'u dewisiadau. Gwnaethom gadarnhau y gallai'r cleifion dreulio amser gyda'u teulu os oeddent yn dymuno ac os oedd hynny'n briodol, ac roedd gwasanaethau eirioli a chynrychioli ar gael i'r cleifion yn ôl yr angen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd garedig a pharchus drwy gydol yr arolygiad
- Roedd mynediad da i weithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd rheolwyr a staff y gwasanaeth wedi dangos dealltwriaeth gynhwysfawr o'r cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff yn ymateb i ymddygiad heriol mewn ffordd ddigynnwrf a phriodol ac roedd trefniadau da ar waith yn gyffredinol i fformiwleiddio risgiau'n amserol.

Roedd lleoliad y cyfarpar brys a'r prosesau sydd ar waith i'w wirio wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf ac roedd y staff yn gwybod sut i gael gafael ar y cyfarpar mewn argyfwng. Roedd asesiadau risg tân a adolygwyd yn ddiweddar wedi cael eu cwblhau ac roedd defnydd priodol yn cael ei wneud bellach o allanfeydd tân ym mhob rhan o'r lleoliad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod materion cynnal a chadw a materion cadw tŷ yn cael eu datrys yn unol â'u blaenoriaeth a'u risg
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau cydymffurfiaeth bob amser â phrosesau cysoni stoc [meddyginiaeth]
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod agweddau ar drefniadau cadw cofnodion o ran cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol yn cael eu hatgyfnerthu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y lleoliad yn diweddarau dogfennau gofal mewn perthynas â fformiwleiddio risg ac ymddygiadau heriol i safon dda
- Roedd y lleoliad yn datblygu ffyrdd creadigol o gefnogi anghenion corfforol y cleifion a hygyrchedd
- Roedd prosesau gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn diogelu hawliau'r cleifion, ac roedd trefniadau rheoli a goruchwylio da ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y lleoliad wedi atgyfnerthu'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella ar unwaith yn ein harolygiad diwethaf. Gwelsom brosesau llywodraethu gwell a oedd yn galluogi rheolwyr i ymateb yn amserol i risgiau ac adroddiadau am ddigwyddiadau.

Roedd yr adborth gan y staff yn gadarnhaol ar y cyfan. Gwnaethom nodi agweddau ar hyfforddiant y mae angen i'r lleoliad eu hystyried ymhellach yn seiliedig ar anghenion hyfforddiant a blaenoriaethau ei weithlu.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Rhaid i'r lleoliad sicrhau bod cynllun hyfforddiant wedi'i ddiweddarau yn cael ei lunio yn seiliedig ar anghenion hyfforddiant a blaenoriaethau ei weithlu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y lleoliad yn rhoi cyfle i'r staff gymryd rhan mewn sesiynau myfyriol o ansawdd uchel
- Roedd y lleoliad wedi llwyddo i lenwi sawl swydd nyrsio er mwyn cefnogi gofal parhaus ac adnabyddiaeth o'r cleifion.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Gwnaethom siarad â'r cleifion ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion er mwyn llunio barn am ansawdd profiad y claf.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom adolygu agweddau ar ofal iechyd corfforol a gwelsom fod prosesau da ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny. Roedd y staff nyrsio yn cynnal clinigau dynion iach wythnosol ac roedd y staff wedi cael eu huwchgilio i gwblhau arsylwadau amrywiol a phrofion syml ar ran y feddygfa leol, fel rhan o archwiliad iechyd blynyddol pob claf. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â chleifion er mwyn cwblhau'r profion gofynnol yn effeithiol.

Gwnaethom gadarnhau bod y cleifion wedi defnyddio gwasanaethau eraill, fel gwasanaethau awdioleg a deintyddol, yn ôl yr angen. Gwnaethom gadarnhau y byddai aelodau o staff y gwasanaeth yn mynd gyda'r cleifion pe bai angen iddynt fynd i apwyntiadau cyffredin yn yr ysbyty neu fynd i'r ysbyty ar frys. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cysylltu â thîm cyswllt anabledau dysgu'r bwrdd iechyd pan gaiff cleifion eu derbyn i'r ysbyty a gwnaethant ganmol y tîm cyswllt am y cymorth a roddir i'r cleifion drwy gydol y broses gofal eilaidd.

Roedd agweddau eraill ar lesiant, fel bwyta'n iach a monitro maeth, yn cael eu hannog a'u cwblhau ar gyfer cleifion yn ôl yr angen.

Roedd cyfleusterau therapiwtig a gweithgareddau ar gael ar y ddwy ward. Yn eu plith roedd campfa, cegin adsefydlu, ystafell sinema ac ardaloedd tawel neu ddigynnwrf. Roedd gan yr ysbyty erddi mawr a bws mini ar gyfer gweithgareddau a gaiff eu cynllunio oddi ar y safle.

Pan ofynnwyd sut y gallai'r lleoliad wella'r amgylchedd, dywedodd y staff y byddai ystafell synhwyraidd yn gwella'r profiad i gleifion ag awtistiaeth. Roedd y tîm arolygu yn cytuno y byddai ystafell o'r fath yn syniad da yn seiliedig ar feini prawf ac anghenion y cleifion a gaiff eu derbyn gan y lleoliad.

Urddas a pharch

Gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd garedig a pharchus drwy gydol yr arolygiad. Gwelsom y cleifion yn ymddwyn yn yr un ffordd tuag at y staff drwy gydol yr arolygiad.

Nodwyd y cafwyd adborth gan y staff a ddywedodd fod y cleifion wedi defnyddio iaith hiliol yn eu herbyn ar adegau. Gwnaethom gadarnhau bod y gwasanaeth wedi ymateb yn briodol i hyn ar y pryd. Fodd bynnag, byddem yn annog y gwasanaeth i ystyried a fyddai modd trefnu gweithgareddau er mwyn helpu'r cleifion i ddeall ei bod yn bwysig peidio â defnyddio iaith o'r fath.

Roedd gan bob un o'r cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain gyda chyfleusterau en-suite. Roedd gan bob un o'r cleifion ofod ychwanegol hefyd a gwnaethom gadarnhau y byddai hyn yn parhau ar ôl i'r gwasanaeth dderbyn mwy o gleifion. Gwelsom rai ystafelloedd gwely a gwelwyd eu bod wedi cael eu personoli, lle roedd y cleifion yn dymuno, er mwyn creu naws cartrefol. Lle nad oedd y cleifion wedi dewis personoli eu hystafelloedd, gwnaethom gadarnhau mai eu dewis nhw oedd hynny.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Drwy fwrw golwg ar gofnodion cleifion, cofnodion y tîm amlddisgyblaethol a chofnodion yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl, gwnaethom gadarnhau y gallai'r cleifion fynd i gyfarfodydd a chael gwybodaeth am eu gofal a'u triniaeth. Defnyddiwyd adnoddau a chymhorthion cyfathrebu er mwyn helpu'r cleifion i ddeall, er enghraifft, os oedd newidiadau'n cael eu gwneud i feddyginiaeth.

Gallai'r cleifion ddefnyddio gwasanaethau eirioli a chynrychioli a fyddai'n eu helpu i ddeall a mynegi eu barn ar eu gofal a'u triniaeth. Gwelsom fod gan y gwasanaeth gysylltiadau effeithiol â gwasanaethau eirioli iechyd meddwl annibynnol lleol ond gwelwyd nad oedd pob claf am gymryd rhan weithredol yn ei ofal a bod y rhesymau dros hynny wedi cael eu nodi.

Roedd cyfranogiad ffrindiau neu berthnasau yn cael ei annog lle bo hynny'n briodol a gwelsom y gallai'r cleifion dreulio amser gyda ffrindiau a theulu naill ai'n electronig neu wyneb yn wyneb yn ôl eu dymuniad.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom aelodau o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd bersonol a brwdfrydig, yn unol ag anghenion ac arddull gyfathrebu ddewisol pob claf. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio adnoddau llafar, ysgrifenedig a lluniau yn ôl yr angen.

Gwnaethom edrych ar y deunydd sydd ar gael i'r cleifion i'w helpu i ddeall eu gofal a'u triniaeth. Roedd y wybodaeth hon ar gael mewn fformat hygyrch a gwnaethom gadarnhau bod y cleifion wedi cael eu cynnwys a'u bod wedi cael cymorth i ddeall sut y cafodd penderfyniadau am eu gofal eu gwneud.

Gallai'r cleifion ddefnyddio dyfeisiau, fel llechi, ar gyfer galwadau fideo â pherthnasau neu gyfarfodydd gofal yn dibynnu ar asesiad risg a'u hamgylchiadau

personol. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y gwasanaeth wedi cysylltu â pherthnasau, ffrindiau a gweithwyr proffesiynol i drafod y dulliau cyfathrebu mwyaf priodol a chytuno arnynt.

Nodwyd bod ymweliadau wyneb yn wyneb gan ffrindiau, perthnasau a gweithwyr proffesiynol yn cael eu cefnogi yn dibynnu ar y claf dan sylw a bod gan y lleoliad brosesau ar waith i roi diweddariadau i deuluoedd neu wybodaeth am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â chleifion.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom sampl o gofnodion pedwar claf yn ymwneud yn benodol â gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd yr holl gofnodion cleifion a oedd yn ymwneud â gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl o safon uchel, yn drefnus ac yn hawdd eu deall.

Gwelsom fod hawliau'r cleifion yn cael eu parchu a bod pob claf yn cael ei gadw yn unol â'r Ddeddf a'r Cod Ymarfer. Gallai'r cleifion gael cyngor a chynrychiolaeth ac roedd tystiolaeth yn cael ei chadw yn y ffeiliau o'r broses gwneud penderfyniadau yn hyn o beth. Gwnaethom nodi cysylltiadau sefydledig ac effeithiol â gwasanaeth eirioli iechyd meddwl annibynnol lleol.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd prosesau ar waith i gael adborth gan y cleifion, eu teuluoedd a'u ffrindiau ar eu gofal a'u profiad o'r gwasanaeth. Gwelsom enghreifftiau o achosion lle roedd cleifion wedi cael cyfle i gymryd rhan yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol. Gwnaethom gadarnhau bod cleifion wedi cymryd rhan yng nghyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol os oeddent yn dymuno gwneud hynny a'u bod wedi cael cynnig eiriolwr annibynnol sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn helpu'r cleifion i fynegi eu barn a'u dymuniadau.

Cafodd y gwasanaeth ei ganmol gan nifer o berthnasau a ffrindiau. Nid oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi cael eu cofnodi'n ddiweddar ond gallai'r lleoliad egluro sut roedd yn cyfathrebu'n gadarnhaol ac yn helpu'r cleifion i ddatrys unrhyw bryderon lefel isel a allai fod ganddynt, er enghraifft, ynghylch y gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer y diwrnod.

Ers yr arolygiad diwethaf, nodwyd bod y lleoliad wedi datblygu ffurflen â lluniau er mwyn i'r cleifion fynegi eu barn a'u safbwyntiau. Fodd bynnag, nododd y lleoliad nad oedd unrhyw un o'r ffurflenni hyn wedi cael eu cwblhau ar adeg yr arolygiad. Wrth i'r gwasanaeth ddechrau derbyn mwy o gleifion, efallai yr hoffai ystyried defnyddio'r ffurflenni hyn neu sefydlu grwpiau cleifion er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddatblygu ar sail adborth gan gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yr amgylchedd yn hygyrch i'r holl gleifion ac ymwelwyr ac roedd lifftiau ar gael ar y wardiau i helpu cleifion ag anghenion symudedd. Gwelsom fod cyfarpar priodol ar y wardiau, gan gynnwys cyfarpar bariatrig a chymhorthion cerdded y gellir eu haddasu, er mwyn cefnogi'r cleifion a'r staff yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd gan y staff larymau a dyfeisiau radio a oedd yn ymddangos fel pe baent yn gweithio'n llawn. Ni chododd y staff unrhyw bryderon am y rhain yn ystod yr arolygiad nac yn yr holiaduron.

Gwelsom fod asesiadau risg tân ac asesiadau risg amgylcheddol wedi'u cwblhau'n ddiweddar gan sefydliadau allanol. Cofnodwyd bod y camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r asesiadau risg hyn wedi cael eu cwblhau yn unol â lefel y risg.

Roedd y lleoliad mewn cyflwr da yn gyffredinol ac roedd y staff wedi canmol gwaith y staff cynnal a chadw. Er na nodwyd unrhyw faterion cynnal a chadw amlwg, gwelsom nifer o fân bethau ar y wardiau y mae angen rhoi sylw iddynt. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys dyfeisiau cau diffygiol ar ddrysau tân, sgriwiau agored a gratiau cawod coll. Dylid mynd am dro o gwmpas y lleoliad i nodi'r materion hyn cyn i nifer y cleifion gynyddu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod materion cynnal a chadw yn cael eu datrys yn unol â'u blaenoriaeth a'u risg.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd y lleoliad yn lân ac yn daclus drwyddo draw ar y cyfan, gan gynnwys y ddwy ward ac ystafelloedd gwely unigol y cleifion. Fodd bynnag, am nad oedd nifer o gleifion yn bresennol ar adeg yr arolygiad, byddai'n fuddiol pe bai'r ardaloedd hynny o'r lleoliad nad oeddent yn cael eu defnyddio o gwbl neu nad oeddent yn cael eu defnyddio'n aml yn cael eu glanhau'n drylwyr a'u tacluso er mwyn sicrhau eu bod yn barod i'w defnyddio eto. Dylid mynd am dro o gwmpas y lleoliad i nodi'r ardaloedd y mae angen eu glanhau a chynnal archwiliad atal a rheoli heintiau dilynol, cyn i nifer y cleifion gynyddu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob rhan o'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus.

Er i ni ganfod bod ardaloedd yn cael eu glanhau i safon dda, nodwyd nad oedd rhestrau gwirio nac amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Dylai'r lleoliad ystyried defnyddio rhestrau gwirio i ddangos pa ardaloedd sydd wedi cael eu glanhau a chan bwy.

Gallai'r lleoliad ddarparu nyrsio ar wahân neu ataliol yn ôl yr angen. Disgrifiodd y staff y prosesau y byddent yn eu dilyn a gwnaethant gadarnhau bod y cyfarpar diogelu personol angenrheidiol ar gael iddynt.

Roedd gwastraff offer miniog yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel yn yr ystafell meddyginiaethau. Roedd protocol ar waith i'r staff ei ddilyn pe baent yn cael anaf nodwydd.

Roedd ystafell golchi dillad ar y safle a chawsom wybod y byddai dillad y cleifion yn cael eu golchi ar eu rhan neu y byddent yn cael cymorth i olchi eu dillad eu hunain o dan oruchwyliaeth.

Maeth

Gwnaethom gadarnhau y gallai cleifion â dewisiadau deietegol neu anghenion arbennig roi eu barn ar y fwydlen ac roedd tystiolaeth i ddangos bod y staff yn cydweithio i ddiwallu'r anghenion hynny. Roedd tystiolaeth dda i ddangos bod y gwasanaeth yn gweithio gyda'r cleifion ac yn sicrhau bod dewisiadau eraill ar gael pe byddai'r cleifion yn newid eu meddwl.

O safbwynt clinigol, roedd anghenion maeth a hydradu yn cael eu hasesu, eu cofnodi a'u diwallu'n briodol. Gwelsom fod siartiau hylif a maeth yn cael eu cadw lle bo angen ac roedd modd cael cymorth gan ddeietegydd. Roedd cynlluniau gofal yn dangos mewnbwn ar ffurf therapïau lleferydd ac iaith i ddiwallu anghenion y cleifion yn briodol.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y meddyginiaethau i gyd yn cael eu storio'n briodol, naill ai ar dymheredd amgylchol neu mewn oergelloedd fel y bo angen, ac mewn cypyrddau diogel drwy ddrws dan glo. Roedd gwiriadau o dymheredd yr oergelloedd yn cael eu cofnodi ac roedd y staff yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw anomaleddau o ran y tymheredd.

Ar Ward Adferiad, gwelwyd anadlydd a oedd wedi darfod ac adrenalin yn cael eu storio y tu allan i'r pecyn anaffylacsis a allai beri oedi cyn rhoi meddyginiaeth mewn argyfwng.

Gwnaethom uwchgyfeirio'r mater hwn yn ystod yr arolygiad a chymerwyd camau ar unwaith i fynd i'r afael ag ef. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Gwelsom fod prosesau cofnodi a llofnodi priodol ar waith ar gyfer cyffuriau a all gael eu camddefnyddio.

Roedd tystiolaeth mewn ffeiliau i ddangos bod adnoddau ymarfer myfyriol yn cael eu defnyddio ar gyfer staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriadau meddyginiaeth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y gallai agweddau ar brosesau cysoni stoc gael eu hatgyfnerthu. Roedd y lleoliad yn ymwybodol o'r rhain ac yn cymryd camau i'w gwella.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau cydymffurfiaeth bob amser â phrosesau cysoni'r stoc meddyginiaeth.

Gwnaethom gadarnhau bod y gwasanaeth yn helpu'r cleifion i ddeall eu meddyginiaeth yn unol â lefel eu galluedd. I'r cleifion hynny y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, gwelsom fod y tîm therapïau lleferydd ac iaith wedi helpu i lunio deunydd hawdd ei ddeall ar gyfer meddyginiaeth newydd a newidiadau i feddyginiaeth claf. Lle roedd meddyginiaeth yn cael ei newid, roedd tystiolaeth o'r newid a chyfranogiad y claf yn cael ei chofnodi yn ystod cyfarfodydd misol y tîm amlddisgyblaethol.

Gwelsom fod siartiau meddyginiaeth cleifion unigol yn cael eu cwblhau i safon dda yn y sampl o gofnodion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd gan bob claf gynllun meddyginiaeth wedi'i deilwra ato, yn ogystal â chynllun gofal ychwanegol ar gyfer meddyginiaeth a roddir yn ôl yr angen.

Roedd gweithdrefn glinigol ar waith ar gyfer rhagnodi meddyginiaeth gwrthseicotig neu dawelu. Ni welsom unrhyw feddyginiaeth yn cael ei rhoi y tu hwnt i'r terfynau clinigol a argymhellir. O edrych ar gofnodion y tîm amlddisgyblaethol, gwelsom fod arferion lleiaf cyfyngol yn cael eu cymhwyso wrth ddefnyddio meddyginiaeth.

O safbwynt sgorio poen, gwelsom fod graddfeydd rhif traddodiadol neu adnoddau â lluniau o emosiynau yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i fynegi poen.

Ers yr arolygiad diwethaf, gwelsom drefniadau cryfach mewn perthynas â storio, mynediad a gwirio cyfarpar brys, gan gynnwys y diffibriliwr a thorwyr clymau. Roedd y cyfarpar bellach yn cael ei storio mewn lleoliad priodol lle gallai'r staff i gyd gael gafael arno. Pan ofynnwyd iddynt, roedd y staff yn ymwybodol o'r lleoliad a sut i gael gafael ar eitemau pe bai argyfwng yn codi. Roedd y cyfarpar hwn bellach yn cael ei wirio'n rheolaidd a chyson.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gweithdrefnau clir a hygyrch ar waith i'r staff eu dilyn pe byddai ganddynt bryder diogelu. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i ddefnyddio'r weithdrefn hon yng nghyd-destun eu rolau ac roedd cyfran dda o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu.

Gwelsom drefniadau llywodraethu a goruchwyllo cryfach ers ein harolygiad diwethaf, a oedd yn cynnwys cydnabod ac ymateb i unrhyw faterion diogelu posibl o'r shifft flaenorol yn ystod cyfarfod boreol dyddiol. Roedd hyn yn ychwanegol at drefniadau adrodd ffurfiol drwy system fewnol y lleoliad ar gyfer cofnodi digwyddiadau, sef Rivo, a lefel uwch o ymatebolrwydd o safbwynt adolygiadau rheolwyr o ddigwyddiadau a gyflwynir drwy'r system.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod gan bob claf gynllun gofal a thriniaeth. Gwnaethom edrych ar sampl o'r rhain a gwelsom yr agweddau cadarnhaol canlynol:

- Roedd y cynlluniau gofal yn gynhwysfawr ac wedi'u teilwra at yr unigolyn, ac roedd pwyslais priodol ar anghenion, cryfderau ac annibyniaeth
- Roedd asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac roeddent yn ymdrin ag ystod o risgiau a oedd yn unigol i bob claf
- Roedd y cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd drwy gyfarfod y tîm amlddisgyblaethol â phresenoldeb da ynddo, a gallai'r claf roi mewnbwn os oedd yn dymuno
- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth ar waith ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn ddarostyngedig i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Roedd gan bob claf gynllun cefnogi ymddygiad cadarnhaol a chynllun ymyriadau argyfwng a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau i safon dda, yn enwedig o safbwynt fformiwleiddio risg. Roeddent yn cynnwys ymyriadau sylfaenol ac eilaidd manwl, strategaethau adweithiol, a ffyrdd o ddatblygu ymddygiadau priodol ar gyfer pob claf.

Nodwyd bod y gwasanaeth yn newid i raglen hyfforddiant newydd ar ymyriadau corfforol. Gwelsom ddata a oedd yn dangos lleihad misol graddol yn nifrifoldeb a hyd ymyriadau.

Roedd gan bob claf gynllun lleihau ataliaeth i gefnogi'r defnydd o ymyriadau. Pan fu ymddygiad heriol, gwelsom y staff yn ymateb mewn ffordd ddigynnwrf ac effeithiol a oedd yn atal yr ymddygiad hwn rhag gwaethygu.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod trefniadau cryfach ar waith i adolygu digwyddiadau, gan gynnwys y rhai sy'n cynnwys unrhyw fath o ymyriad. Roedd y gwasanaeth yn ymateb i ddigwyddiadau'n amserol, gan gynnwys ystyried sbarduno cyfarfod

adolygu digwyddiad, dadansoddiad o wraidd y broblem, a rhoi cyfle i'r staff a'r cleifion gymryd rhan mewn sesiynau dadfrifffio. Nodwyd bod sesiynau myfyrio staff o ansawdd uchel yn cael eu darparu o fewn y tîm a gwelsom rai o'r sesiynau hyn yn ystod yr arolygiad.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod dogfennau'r cleifion yn gynhwysfawr ar y cyfan ac yn hawdd eu deall.

Nodwyd bod asesiadau'n cael eu cwblhau a'u diweddarau'n rheolaidd gan aelodau amrywiol o'r tîm amlddisgyblaethol. Roedd prosesau fformiwleiddio risg yn cael eu cwblhau i safon dda, gan gynnwys diweddarau cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn seiliedig ar achosion aciwt o newidiadau i ymddygiad claf.

Nodwyd bod cynlluniau cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol yn gynhwysfawr ond gallai agweddau ar drefniadau cadw cofnodion gael eu hatgyfnerthu, er enghraifft drwy sicrhau bod cynlluniau yn cael eu dyddio'n gywir a bod cynlluniau sydd wedi darfod yn cael eu marcio'n glir i ddynodi hynny.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod agweddau ar drefniadau cadw cofnodion o ran cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol yn cael eu hatgyfnerthu.

Nodwyd bod defnyddio dyddiaduron canlyniadau dyddiol ar gyfer cleifion yn ddatblygiad i'w groesawu er mwyn cofnodi anghenion y cleifion a'u dewisiadau ar gyfer y diwrnod sydd i ddod a rhoi gwybodaeth gyfoes o ansawdd i'r staff am bob claf.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar ffeiliau pedwar claf a oedd wedi cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac roeddem yn fodlon bod gofynion y Ddeddf a'r Cod Ymarfer yn cael eu bodloni.

Roedd y cofnodion i gyd o safon uchel ac yn hawdd eu deall. Gwnaethom gadarnhau bod hawliau'r cleifion yn cael eu parchu a'u bod yn cael gwybodaeth am eu cyfnod cadw ac roedd tystiolaeth i ddangos bod cleifion wedi cael cymorth i ddeall hyn. Gallai pob claf gael cyngor a chynrychiolaeth os oedd yn dymuno ac roedd tystiolaeth yn cael ei chadw yn y ffeiliau o'r broses gwneud penderfyniadau yn hyn o beth. Roedd gan y gwasanaeth gysylltiadau lleol da â'r gwasanaeth eirioli iechyd meddwl annibynnol lleol, gyda mynediad effeithiol ac amserol lle bo angen.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Roedd gan bob claf gynllun gofal a thriniaeth. Roedd y cynlluniau wedi cael eu hadolygu a'u teilwra'n briodol at yr unigolyn ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth fanwl am bob claf. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o nodau, camau gweithredu

a thargedau ar gyfer pob claf sy'n berthnasol i'w ddiddordebau ac sy'n cefnogi ei annibyniaeth.

Roedd trefniadau cynllunio gweithredol ar waith ar gyfer rhyddhau cleifion o'r lleoliad. Er bod rhai cleifion wedi bod yn y lleoliad am gyfnodau maith o amser, gallai'r staff ddangos sut roeddent wedi gweithio a sut maent yn parhau i weithio gyda phartheriaid allanol i gefnogi lleoliadau diogel, priodol a chynaliadwy ar gyfer y cleifion. Nodwyd bod pwyslais yn cael ei roi ar farn y cleifion wrth ystyried trefniadau rhyddhau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gwahoddwyd y staff i gwblhau holiadur staff AGIC a chafodd wyth eu cwblhau. Caiff sylwadau eu cynnwys isod lle y bo'n briodol, ond efallai nad yw'r canfyddiadau'n gynrychioliadol o'r gweithlu am fod y gyfradd ymateb yn isel.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r rheolwyr yn trin pawb yn gyfartal...”

“Mae pobl wahanol [staff] i gyd yn gweithio tuag at yr un nod, sef gofalu am gleifion...”

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd yn ymddangos bod strwythur y sefydliad yn addas i sicrhau goruchwyliaeth gan y rheolwyr a'r arweinwyr a galluogi gwybodaeth i lifo'n effeithiol rhwng y wardiau a'r rheolwyr. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom arweinwyr timau yn gweithio fel gweithwyr ychwanegol ac roedd y staff hynny'n glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Mewn ymateb i arolwg staff AGIC, roedd pob aelod o'r staff wedi cytuno mai gofal a diogelwch cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad ac y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad hwn i'w ffrindiau neu deulu. Roedd pob aelod o'r staff heblaw un wedi argymhell y sefydliad fel lle da i weithio.

Pan ofynnwyd am uwch-reolwyr, roedd pob aelod o'r staff yn cytuno eu bod yn weladwy ac yn ymrwymedig i ofal cleifion. Roedd pob un ohonynt heblaw un yn cytuno bod y cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a staff yn effeithiol.

O safbwynt eu rheolwr llinell uniongyrchol, roedd pob aelod o'r staff yn cytuno y gallent ddibynnu ar eu rheolwr llinell i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith a'i fod yn gofyn iddynt am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith. Roedd pob un ohonynt heblaw un yn cytuno eu bod yn cael adborth clir.

Nodwyd bod yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau dirybudd rheolaidd â'r gwasanaeth ac roedd ei adroddiadau'n cynnwys lefel dda o fanylder i roi sicrwydd iddo fod agweddau ar y gwasanaeth yn cael eu rhedeg yn effeithiol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod trefniadau cryfach ar waith gan y lleoliad i reoli pryderon a digwyddiadau. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno prosesau adrodd a llywodraethu newydd ac adolygiadau mwy amserol gan reolwyr mewn ymateb i ddigwyddiadau.

Cyflwynwyd cyfarfod cyfathrebu boreol dyddiol i adolygu pob mater yn ymwneud â digwyddiadau, risgiau ac ymddygiadau heriol dros y 24 awr blaenorol. Roedd yn ymddangos bod digon o fanylion yn cael eu rhoi i alluogi'r staff i weithredu'n amserol.

Roedd camau gweithredu o'r cyfarfod hwn yn cael eu defnyddio i gofnodi digwyddiadau ar system rheoli digwyddiadau'r lleoliad, sef RIVO. Gwelsom sampl o'r cofnodion hyn a gwelsom fod proses adolygu ddyddiol newydd ar waith i reolwyr. Ar ôl y cam adolygu, gwelsom benderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch sbarduno prosesau eraill, gan gynnwys ymchwiliadau a dadansoddiadau o wraidd y broblem, atgyfeiriadau diogelu, neu adroddiadau i AGIC.

Gwnaethom gadarnhau bod y wybodaeth hon yn cael ei bwydo i fyny i gyfarfodydd llywodraethu a arweinir gan yr uned. Roedd y cyfarfodydd hyn wedi cael eu hatgyfnerthu yn sgil cyflwyno gwersi i'w dysgu ac adnodd olrhain AGIC ar gyfer rhoi gwybod i ni am ddigwyddiadau. Roedd yn ymddangos bod pwyslais da yn cael ei roi ar sesiynau dadfrifio ar ôl digwyddiadau a gwiriadau lles ar gyfer staff neu berthnasau yn ôl yr angen.

Gwnaethom adolygu sampl o ddigwyddiadau a gwelwyd eu bod yn cyfateb i'r cofnodion a ddelir gan AGIC ar gyfer y digwyddiadau hynny gan fodloni gofynion rheoliadol AGIC ar gyfer adrodd.

Pan ofynnwyd i'r staff a yw eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am ddigwyddiadau ac a yw eu sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto, roedd pob aelod o'r staff wedi cytuno. Fodd bynnag, roedd pob aelod o'r staff heblaw un yn cytuno eu bod yn cael eu trin yn deg wrth roi gwybod am ddigwyddiadau a'u bod yn cael adborth mewn ymateb i hynny.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd digon o staff â chymysgedd o sgiliau ar gael i ddiwallu anghenion y cleifion ac o'r hyn a welsom yn ystod yr arolygiad a'r hyn a ddywedodd y staff wrthym, nid oes unrhyw bryderon ynghylch lefelau staffio.

Er bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gadarnhau bod y staff hyn yn gyfarwydd â'r lleoliad a oedd yn helpu i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r prosesau ac yn adnabod y cleifion.

Nid oedd llawer o swyddi gwag yn y lleoliad a gwelsom fod y gwasanaeth wedi llwyddo i recriwtio sawl nyrs dramor yn ddiweddar. Gwnaethom gadarnhau bod proses hyfforddi a sefydlu ar waith ac y byddai pob aelod newydd o'r staff yn cael ei oruchwyllo.

I ddechrau, gwelsom lefelau da o gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ac arbenigol. Fodd bynnag, o ganlyniad i wahaniaethau yn y ffordd y caiff data eu cofnodi, nodwyd bod angen cynyddu canrannau cwblhau mewn sawl maes hyfforddiant.

Rhaid i'r lleoliad sicrhau bod cynllun hyfforddiant wedi'i ddiweddarau yn cael ei lunio yn seiliedig ar anghenion hyfforddiant a blaenoriaethau ei weithlu.

Caiff y darparwr cofrestredig ei annog i sicrhau bod data hyfforddi yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn gyson yn ei safleoedd rheoleiddiedig eraill.

Roedd proses ar waith i oruchwyllo staff cofrestredig yn ystod yr arolygiad ac roedd y broses hon ar fin dod i ben. Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael eu goruchwyllo neu'u harfarnu o fewn y 12 mis diwethaf a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau'r staff a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal i safon dda o safbwynt gwiriadau cyn cyflogi. Roedd tystiolaeth ym mhob ffeil i gadarnhau bod y staff yn addas i weithio, bod ganddynt gymwysterau priodol a bod ganddynt gofrestrriad proffesiynol i weithio yn y lleoliad. Gwnaethom edrych ar sampl o rifau cofrestru proffesiynol ar gyfer nyrsys cofrestredig ac ni welsom fod unrhyw gyfyngiadau ymarfer ar waith ar gyfer unrhyw staff yn y lleoliad.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|--|---|---|---|
| Gwelsom anadlydd wedi darfod ac adrenalin yn cael ei storio'n amhriodol y tu allan i'r pecyn anaffylacsis ar ward Adferiad | Gall meddyginiaeth sydd wedi darfod fod yn llai effeithiol a gall storio eitemau y tu allan i'r pecyn atal staff rhag rhoi meddyginiaeth yn amserol mewn argyfwng | Gwnaethom dynnu sylw'r nyrs â chyfrifoldeb ar y ward at hyn | Anadlydd newydd wedi'i archebu a'r adrenalin wedi'i storio'n gywir. |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:

Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|-----------------------------------|-----------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| Dim meysydd i'w gwella ar unwaith | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: New Hall

Dyddiad yr arolygiad: 24-26 Hydref 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|-----------------|--|--------------------------------|--|
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod materion cynnal a chadw yn cael eu datrys yn unol â'u blaenoriaeth a'u risg. | Rheoliad 26 | Cyfarfod adolygu digwyddiadau yn tynnu sylw at faterion cynnal a chadw ac yna caiff e-bost yn nodi'r materion hyn ei anfon at y tîm cynnal a chadw bob dydd. | LH, HM a DR, MHA. | Wedi'i gwblhau 30/11/2023 |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob rhan o'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus. | Rheoliad 26 | Mae cynlluniau i lanhau'r ardal i fyny'r grisiau ar ward Adferiad yn drylwyr cyn derbyn unrhyw gleifion newydd - gwneir trefniadau i storio eitemau. | LH, HM, ac AB, Cynnal a Chadw. | Mae disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ym mis Ionawr 2024. |
| Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau cydymffurfiaeth bob amser â phrosesau cysoni stoc [meddyginiaeth]. | Rheoliad 15 | Mae hyfforddiant meddyginiaeth gan yr Uwch-nyrs wedi cael ei roi ar waith ar sail unigol ar brosesau penodol yr ysbyty. | CM, SSN. | Mae disgwyl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau erbyn 30/01/2024. |

| | | | | |
|---|---------------------------|---|-----------------------------------|-----------------------------------|
| | | <p>Sesiwn hyfforddiant wedi'i chynllunio ar gyfer 11 a 25/01/2024.</p> <p>Ffeil 1 a 2</p> <p>Cysoni stoc</p> <p>Archebu meddyginiaeth</p> | | |
| <p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod agweddau ar drefniadau cadw cofnodion o ran cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol yn cael eu hatgyfnerthu.</p> | <p>Rheoliadau 15 / 23</p> | <p>Cysylltu â'r Seicolegydd a'r Cynorthwydd Seicoleg i sicrhau bod hen fersiynau yn cael eu tynnu o'r ffeiliau a'u harchifo'n briodol pan gaiff fersiynau newydd o gynlluniau cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol eu defnyddio.</p> | <p>LH, HM.</p> | <p>Wedi'i gwblhau 30/11/2023.</p> |
| <p>Rhaid i'r lleoliad sicrhau bod cynllun hyfforddiant wedi'i ddiweddarau yn cael ei lunio yn seiliedig ar anghenion hyfforddiant a blaenoriaethau ei weithlu.</p> | <p>Rheoliad 21</p> | <p>Mae'r matrices hyfforddiant bellach yn cynnwys Dd/G ar gyfer unigolion nad oes angen hyfforddiant penodol arnynt.</p> | <p>VK, Gweinyddydd yr Ysbyty.</p> | <p>Wedi'i gwblhau 30/11/2023.</p> |

| | | | | |
|--|--|---|---|--|
| <p>Caiff y darparwr cofrestredig ei annog i sicrhau bod data hyfforddi yn cael eu cofnodi'n gywir ac yn gyson yn ei safleoedd rheoleiddiedig eraill.</p> | | <p>Gohebiaeth wedi'i throsglwyddo i'r tîm gweithredol. Bydd holl fatricsau hyfforddiant y gwasanaeth yn dilyn DPA New Hall.</p> | <p>DW, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth.</p> | |
|--|--|---|---|--|

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Linda Hull

Swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 05/12/2023